# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Meeting Venue: | **Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd** |
| Meeting date: | **Dydd Mawrth, 26 Chwefror 2013** |
| Meeting time: | **09:00 - 11:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

This meeting can be viewed on Senedd TV at:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_26_02_2013&t=0&l=en

## Concise Minutes:

| | |
|---|---|
| Assembly Members: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Gwyn Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Jocelyn Davies** |
| Witnesses: | **Gillian Body, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Paul Dimblebee, Cyfarwyddwr Grŵp – Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Committee Staff: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2. Papurau i'w nodi

2.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a ganlyn:

- gohebiaeth rhwng y Cadeirydd a'r Llywydd ynghylch amserlen y Pwyllgor;
- ymateb gan Swyddfa'r Cabinet i'r camau i'w cymryd a nodwyd yn y cyfarfod ar 18 Chwefror 2013; a
- chofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor ar 18 Chwefror.

## 3. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:
Eitemau 4 a 5.

## 4. Trafod amserlen y Pwyllgor
4.1 Bu’r Pwyllgor yn trafod materion mewn perthynas â’r amserlen, a chytunodd ar gynigion a amlinellwyd gan y Cadeirydd ynghylch trefnu blaenraglen waith y Pwyllgor.

## 5. Ystyried adroddiad drafft y Pwyllgor ar broses gaffael Llywodraeth Cymru a’r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen
5.1 Cafwyd datganiad o fuddiant gan Julie Morgan o dan yr eitem hon, a gadawodd y cyfarfod cyn i’r drafodaeth ddechrau.

5.2 Bu’r Pwyllgor yn ystyried ei adroddiad drafft ar broses gaffael Llywodraeth Cymru a’r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen. Cytunodd y Pwyllgor ar nifer o newidiadau i’r adroddiad, a chytunodd i ystyried yr adroddiad eto mewn cyfarfod arall.